Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Mudiad Ysgol Feithrin Y Felinheli
# Buarth Ysgol Y Felinheli
# Caernarfon
# LL56 4TZ

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Mudiad Ysgol Feithrin Y Felinheli

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Y Felinheli |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ceri Roberts a Catrin Sidgewick |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Anneka Dillon Williams |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 1 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 10:45 y.b. – 3:30 y.h. dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor ysgol. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu “cynnig gweithredol” y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhag-weld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 16/12/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 03/07/2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/02/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Daw bron pob un o'r plant o gartrefi Cymraeg. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **dd/p** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn olrhain cynnydd pob plentyn yn effeithiol

A2 Sicrhau bod systemau monitro a goruwchwylio staff yn digwydd yn gyson a chadw cofnodion ffurfiol wedi'u dyddio er mwyn sicrhau bod y system yn drylwyr a chadarn.

A3 Sicrhau bod arweinwyr yn canfod barn rhieni ac aelodau'r pwyllgor i gefnogi gweithdrefnau hunanawerthuso yn fwy effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn mynegi eu teimladau'n hyderus. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau gydag oedolion ac yn ffyddiog y bydd ymarferwyr yn dangos diddordeb a pharchu yr hyn sydd ganddynt i'w dweud. Er enghraifft, maent yn rhannu eu teimladau'n fedrus yn ystod amser cylch, gan esbonio'u hemosiynau ac ymateb yn gadarnhaol i frwdfrydedd yr ymarferwyr wrth wrando arnynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau drostynt eu hunain yn effeithiol, ac maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu yn bwrpasol.

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymgartrefu'n dda wrth gyrraedd ac yn awyddus i chwarae gyda'u ffrindiau. Mae bron pob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n ddeallus gyda'r gweithdrefnau, sy'n creu sicrwydd iddynt wrth ymdopi â phrofiadau newydd. Mae bron pob plentyn wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'r ymarferwyr ac yn hyderus y byddant yn medru mynd atynt am gymorth neu cefnogaeth fel bo angen. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn gwenu a dangos balchder yn eu gwaith ar ôl i ymarferydd ganmol y cerddoriaeth yr oeddent yn creu yn yr ardal gerdd tu allan.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasau positif gyda'u cyfoedion. Maent yn awyddus i chwarae gyda'i gilydd ac yn sgwrsio yn gyson yn ystod gweithgareddau ac yn ystod amser cinio. Mae bron pob plentyn yn cymdeithasu'n fodlon ac yn barod iawn i rannu teganau ac adnoddau. Maent yn cymryd eu tro gyda'u ffrindiau yn ddiffwdan. Er enghraifft, maent yn gwylio a sgwrsio gyda'u cyfoedion yn hapus tra'n aros eu tro i edrych ar y trychfilod drwy'r chwyddwydrau.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau yn dda wrth arbrofi gyda blawd, llefrith a chynhwysyddion gwahanol wrth wneud crempogau. Mae'r rhan fwyaf yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae gyda deunyddiau naturiol a defnyddio eu dychymyg yn effeithiol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn arbrofi gyda phridd a cherrig wrth edrych am fwydod gyda'r teganau deinosoriaid.

Mae bron pob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn dechrau ar eu gwaith celf ar ôl iddynt wisgo ffedogau, casglu brwsys paent ac arllwys eu paent eu hunain. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn awyddus i olchi dwylo ac arllwys diod yn gwbl annibynnol. Maent yn barod i gydweithredu gyda thasgau ac yn ymfalchio yn eu llwyddiannau. Er enghraifft, wrth gymryd eu tro i fod yn 'helpwr heddiw' a helpu ymarferwyr i ddidoli bwyd yn ystod amser brybryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a aiennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac yn gyfarwydd gyda'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth brys mewn achos damwain. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled ac wrth ddilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau a llysiau ac yn sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael iddynt drwy gydol y dydd. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'r plant ac yn siarad gyda nhw yn annwyl ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae pob un ohonynt yn defnyddio strategaethau effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn modelu cymryd tro a rhannu adnoddau yn ystod gweithgareddau i helpu dealltwriaeth y plant ieuengaf ac yn denu sylw plant at brofiadau eraill os oes trafferthion rhannu a chymryd tro yn digwydd. Drwy roi eglurhad clir a thrafod rheolau'r lleoliad yn ystod amser cylch, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r rheolau a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod y plant yma'n derbyn y gefnogaeth maent ei angen. Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant sy'n derbyn eu haddysg yn y lleoliad yn briodol trwy gynnal arsylwadau ac asesiadau rheolaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn olrhain cynnydd yr holl blant sydd yn mynychu'r lleoliad er mwyn cynllunio'n fwriadus ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae ac i adnabod unrhyw anawsterau yn ddigon amserol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau amryiwol a chyfoethog sy'n datblygu medrau plant yn llwyddiannus ac yn datblygu eu annibyniaeth yn effeithiol. Darperir gweithgareddau pwrpasol i'r plant i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chorfforol . Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau wrth ddilyn llwybr cerrig llythrennau'r wyddor ac ymuno â chwareuon buarth 'Mistar Blaidd' gan gyfri'r camau. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o themau amrywiol ar gyfer y flwyddyn er mwyn bodloni diddordebau'r plant ac yn berthnasol i'w bywydau bob dydd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoeodd i gyfoethogi'r dysgu drwy drefnu ymweliadau ar gyfer y plant eu trwy wahodd ymwelwyr i'r lleoliad..

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau o dan ofal oedolyn a rhai a ddewisir gan y plant. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dysgu annibynnol ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn canolbwyntio ar weithgareddau am gyfnodau gwerthchweil. Er enghraifft, mae'r ymarferwr yn gadael i blentyn geisio troi a chau glanheuwr pib i ddal grawnfwyd bach a gwneud teclyn bwydo'r adar cyn cynnig cymorth.

Mae'r ymarferwyr yn modelau iaith cryf sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y plant wrth iddynt siarad Cymraeg yn hyderus yn yr ardaloedd chwarae. Maent yn adnabod y plant yn dda. Er enghraifft, mae bron pob un o'r plant yn sgwrsio'n gyfforddus gyda'r ymarferwyr am eu teuluoedd, dathliadau ac ymweliadau. Mae'r ymarferwyr yn modelu chwarae yn effeithiol yn yr ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau personol a chymdeithasol y plant. Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn y dysgu yn bwrpasol ac yn holi'r plant yn fedrus gan rhoi amser meddwl iddynt. Mae hyn yn datblygu medrau meddwl a'u medrau cyfathrebuyn effeithiol, er enghraifft trwy annog y plant i ddisgrifio beth sy'n digwydd a sut mae'n teimlo wrth iddynt gymysgu cynhwysion crempog yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ganfyddiadau arsylwadau ac asesiadau'r plant er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn cofnodi datblygiad y plant yn effeithiol ac yn olrhain eu cynnydd yn rheolaidd ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn briodol trwy ystod o weithgareddau buddiol. Darperir cyfleoedd da i'r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill drwy flasu bwyd a gwisgo i fyny mewn gwisgoedd traddodiadol, er enghraifft trwy ddathlu Blwyddyn newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae'r ymarferwyr hefyd yn sicrhau ystod addas o lyfrau aml-ddiwylliannol yn yr ardal lyfrau a doliau aml-ddiwylliedig yn y tŷ bach twt er mwyn atgyfnerthu dealltwriaeth y plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymreig gan gynnwys dathlu Gwyl Ddewi, ymuno â chwareon buarth a dysgu a chanu hwiangerddi traddodiadol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol yn eu lle er mwyn monitro a rheoli unrhyw beryglon posib. Mae asesiadau risg ysgrifenedig yn gynhwysfawr ac yn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae arweinwyr yn gwirio ardaloedd dysgu yn gyson ac yn delio ag unrhyw beryglon yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael teimlad o berthyn drwy arddangos esiamplau o'u gwaith ar y waliau. Mae'r ystafell chwarae yn cynnig ystod o ardaloedd dysgu pwrpasol gydag ystod eang o weithgareddau ac adnoddau sy'n cyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ardal chwarae rôl wedi ei droi yn 'filfeddygfa' i gyd fynd gyda'r thema gyfredol. Mae'r ardal chwarae allanol yn eithriadol o ddeniadol ac yn cynnig nifer fawr o brofiadau

cyffrous sy'n ennyn diddordeb y plant yn effeithiol. Mae ardal hon hefyd yn rhoi cyfle gwerthfawr iddynt ddatblygu medrau corfforol a chreadigol, er enghraifft trwy greu cerddoriaeth gyda'r offer taro yn yr ardal gerddorol; trwy esgus gyrru ar y 'ffordd' ar y beiciau cydbwyso a thrwy chwarae'n ddychmygol yn y 'tŷ corach'. Gwneir defnydd hynod effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol i annog y plant i arbrofi a darganfod drostynt eu hunain. Er enghraifft, drwy chwarae'n ddychmygol yn ardal 'caffi'r cylch' gyda cheginau mwd a thrwy arsylwi ar fyd natur yn y gwesty trychfilod.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous o ansawdd da ar gael i blant. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr ar gael i blant chwarae ac arbrofi gyda deunyddiau wedi ailgylchu, er enghraifft wrth ddefnyddio pacedi bwyd gwag yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r holl ddodrefn a'r offer yn addas ar gyfer oedran a maint y plant. Cedwir cofnodion trylwyr o'r tasgau glanhau, gan gynnwys sterileiddio'r teganau'n rheolaidd. O ganlyniad, mae'r offer a'r teganau yn lan ac mewn cyflwr da iawn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y person â gofal weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf o ran addysg a lles y plant mewn awyrgylch hapus a theuluol. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'i chydymarferwyr sy'n hynod o gefnogol ac yn cyd weithio fel tîm llwyddiannus. Mae'r person â gofal yn gosod disgwyliadau uchel o'i hun, o'r ymarferwyr a'r plant.

Mae'r datganiad o ddiben yn gynhwysfawr ac yn amlinellu'r gwasanaeth a roddir gan y lleoliad yn drylwyr. Ceir ystod o bolisiau a gweithdrefnau pwrpasol sy'n cefnogi gwaith y lleoliad yn gadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cyfrannu'n effeithiol i waith y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau rheoli perfformiad a goruchwylio ar gyfer yr ymarferwyr yn ddigon trylwyr nac yn cael eu gweithredu'n ddigon rheolaidd. O ganlyniad, nid yw'n bosib i arweinwyr ymateb i anghenion hyfforddi a datblygiad yr ymarferwyr yn brydlon na rhoi cyfle i ymarferwyr drafod eu hanghenion yn brydlon bob amser.

Mae'r person cofrestredig a'r pwyllgor rheoli yn rhagweithiol ac yn cyflawni eu rolau yn gadarnhaol er lles y plant. Maent wedi cydweithio'n effeithiol iawn er mwyn sicrhau newidiadau o ran y ddarpariaeth, er enghraifft trwy greu ardal allanol ardderchog sydd wedi arwain at welliannau o ran lles a medrau'r plant. Yn gyffredinol, mae gan y lleoliad drefniadau hunanwerthuso pwrpasol sy'n rhoi darlun cywir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o'r canfyddiadau er mwyn adnabod y blaenoriaethau ar gyfer y cynllun datblygu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn canfod barn rhieni ac aelodau'r pwyllgor am fywyd a gwaith y lleoliad yn ddigon effeithiol.

Mae gan y rhieni feddwl mawr o'r ymarferwyr ac yn gwerthfawrogi'r profiadau cyfoethog a'r gofal cyson sy'n cael ei ddarparu i'w plant. Mae polisi drws agored y lleoliad yn sicrhau bod rhieni'n cael cyfleoedd cyson i drafod gydag ymarferwyr gan gynnwys sgwrs dyddiol wrth ddrws y lleoliad ac ar wefan cymdeithasol y lleoliad. Darperir gwybodaeth defnyddiol i rieni ddwywaith y flwyddyn drwy noson agored, adroddiad diwedd y flwyddyn a ffeil sy'n crynhoi ffotograffau ac esiamplau o gynnyrch y plentyn yn ystod ei amser yn y Cylch. Yn ogystal, mae'r plant yn mynd adref â

thegan meddal am benwythnos yn eu tro er mwyn hybu datblygiad moesol y plentyn yn y cartref. Mae hyn yn atgyfnerthu cydweithrediad da rhwng y rhieni a'r ymarferwyr er mwyn hyrwyddo lles y plentyn.

Mae gan y lleoliad berthynas effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy'n cefnogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Mae'r person â gofal yn cydweithio'n agos gyda'r athrawes ymgynghorol ac athrawes feithrin yr ysgol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ac o ganlyniad, gwella cyflawniad y plant. Er enghraifft, maent wedi cydweithio'n effeithiol i ailstrwythuro'r ardaloedd chwarae i gefnogi'r dysgu'n well. Cynhelir gweithgareddau cyson gan yr arweinwyr i godi arian ar gyfer y lleoliad, er enghraifft trwy gynnal cyngerdd a ffair Nadolig lle mae'r plant yn cael cyfle i berfformio.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2020